



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

# Canllawiau Cyllido Addysg Rhagnodi Anfeddygol

---



**Medi 2020**

---

## Cynnwys

---

- Tudalen 3
- Cyflwyniad
  - Dolenni at Wefannau Prifysgolion
- Tudalen 4
- Y Broses Ariannu
  - Rhaglenni Rhagnodi Anfeddygol a Ariennir
- Tudalen 6
- Dyrannu a Monitro
- Tudalen 7
- Diogelu Data
  - Cofrestru
  - Costau Teithio
  - Toriadau wrth Astudio
  - Manylion cyswllt
- 



---

## Canllawiau Cyllido ar gyfer Addysg Rhagnodi Anfeddygol

---

### Cyflwyniad

Mae'r ddeddfwriaeth meddyginiaethau yn caniatáu rhagnodi atodol ac anfeddygol (NMP) yn y DU. Cyflwynwyd yr estyniad i hawliau rhagnodi i weithwyr proffesiynol anfeddygol yng Nghymru i hwyluso cyflawni nodau "Cynllun Oes – Creu Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r Radd Flaenaf i Gymru yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif", ym mis Mai 2005.

Mae Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) yn dyrannu cyllid ar gyfer addysg NMP bob blwyddyn i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Cymru sydd am gynyddu eu gweithlu rhagnodi. Mae rhagnodi gan Weithwyr Iechyd Proffesiynol Anfeddygol yn:

- gwella gofal i gleifion heb beryglu diogelwch y claf
- rhoi mwy o ddewis i gleifion o ran cael meddyginiaethau
- ei gwneud yn haws a chyflymach i gleifion gael y moddion sydd eu hangen arnynt
- gwneud defnydd gwell o sgiliau gweithwyr iechyd proffesiynol
- cyfrannu at gyflwyno gwaith tîm mwy hyblyg ar draws y gwasanaeth iechyd
- gwell profiadau i gleifion

Mae datblygu rhagnodi anfeddygol o fewn y gwasanaeth iechyd yn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant addas i ehangu eu rolau ac i ddefnyddio eu sgiliau a'u cymwyseddau'n effeithiol i wella gofal i gleifion mewn ystod o feysydd gan gynnwys:

- rheoli cyflyrau tymor hir
- rheoli moddion / adolygu meddyginiaethau
- gofal argyfwng/brys/heb ei drefnu
- gwasanaethau iechyd meddwl
- gwasanaethau i gleifion heb eu cofrestru e.e. pobl ddigartref
- gofal lliniarol

Ar hyn o bryd gall niysys, bydwragedd, fferyllwyr, parafeddygon, optometryddion, ffisiotherapyddion, ciropodyddion, podiatryddion, radiograffwyr ac ymarferwyr cymunedol gael hyfforddiant proffesiynol pellach i gymhwyso fel rhagnodwyr anfeddygol.

Mae pum prifysgol yng Nghymru y mae AaGIC yn comisiynu rhaglenni NMP ganddynt:

- Prifysgol De Cymru: <https://www.southwales.ac.uk/study/subjects/nursing-health-sciences/short-courses/prescribing/>

- Caerdydd: <https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/taught/courses/course/advanced-practice-non-medical-prescribing-pgcert-part-time>
- Abertawe: <https://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/gwyddorau-dynol-ac-iechyd/pgcert-rhagnodi-an-feddygol-i-nyrsys-a-bydwragedd/>
- Bangor: <https://www.bangor.ac.uk/cyrsiau/modiwlau-olraddedig/NHS-4355>
- Glyndŵr: <https://www.glyndwr.ac.uk/cy/CyrsiauOl-raddedig/MScAdvancedClinicalPractice/>

## Y Broses Ariannu

Bob blwyddyn mae AaGIC yn dyrannu nifer penodol o leoedd a ariennir i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth. Mae pob prifysgol yn cael eu hysbysu o nifer y lleoedd y bydd AaGIC yn eu hariannu ar ran y sefydliadau. Mae lleoedd a ddyfernir i fyrddau iechyd ar gyfer staff sy'n gweithio i'r bwrdd iechyd a'u partneriaid gofal sylfaenol. Mae gweithwyr iechyd anfeddygol proffesiynol a gyflogir gan feddygon teulu e.e. Nyrsys Practis yn gymwys i gynnig am y lleoedd.

Bwriedir i leoedd a ariennir a roddir i sefydliadau'r GIG **ychwanegu** at fuddsoddiad lleol i sicrhau bod y clinigwyr priodol yn gallu cyflawni'r gofynion addysgol fel y'u nodwyd mewn IMTPau sefydliadol.

Mae ceisiadau am addysg NMP i'w cyflwyno ar y templed comisiynu addysg drwy'r broses IMTP. Rhaid i geisiadau am gyllid addysg gael eu gyrru gan y gwasanaeth ac wedi'u cysylltu â chynlluniau gweithlu Sefydliadau'r GIG, a blaenoriaethau penodol sy'n cael eu pennu'n flynyddol. Mae AaGIC yn cwrdd â holl Sefydliadau'r GIG i drafod a chytuno ar yr holl geisiadau am gyllid. Mae AaGIC yn monitro'r defnydd o'r gyllideb hon yn ofalus iawn.

Rhaid i bob darpar ymgeisydd a ddewisir i gael cyllid NMP, sicrhau bod y gofyniad hwn wedi'i nodi fel rhan o'u proses PADR a rhaid cael cytundeb eu rheolwr llinell, a'r Adran Addysg. Noder ei bod yn hanfodol bod pob darpar ymgeisydd **yn cael cytundeb eu cyflogwr bod:**

- **Yr hyfforddiant yn cyd-fynd â blaenoriaethau addysg y sefydliad fel y nodwyd yn yr IMTP, a bod AaGIC wedi cytuno y bydd yn cael ei ariannu o'r gyllideb Rhagnodi Anfeddygol.**
- **Rhaid i gyflogwyr gytuno i'w rhyddhau i gael yr hyfforddiant, cyn bod unigolion yn cyflwyno cais am le ar gwrs gyda Darparwr Addysg.**

## Rhaglenni Rhagnodi Anfeddygol a Ariennir

### 1. Rhagnodi annibynnol

Mae rhagnodwyr annibynnol yn gyfrifol ac am atebol am asesu cleifion â chyflyrau sydd wedi a heb gael diagnosis ac am benderfyniadau am y rheolaeth glinigol sydd ei hangen, gan gynnwys rhagnodi.

- Gall nyrsys a fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol ragnodi unrhyw foddion ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol o fewn eu cymhwysedd, gan gynnwys unrhyw gyffur a reolir yn Atodlen 2,3,4 neu 5 o Reoliadau MDR 2002, fel y'u diwygiwyd
- Gall optometryddion sy'n rhagnodwyr annibynnol ragnodi unrhyw feddyginiaeth drwyddedig ar gyfer cyflyrau ocwlar sy'n effeithio ar y llygaid a'r meinwe cyfagos, ond ni allant ragnodi unrhyw gyffuriau a reolir
- Gall ffisiotherapyddion a phodiatryddion neu giropodyddion ragnodi unrhyw feddyginiaeth drwyddedig os yw'n dod o fewn eu maes cymhwysedd unigol a chwmpas priodol eu hymarfer fel rhagnodwyr annibynnol, ond ni chânt ragnodi unrhyw gyffuriau a reolir.

## **2. Rhagnodi atodol**

Gall rhagnodwyr atodol ragnodi unrhyw feddyginiaeth (gan gynnwys cyffuriau a reolir), o fewn fframwaith cynllun rheoli clinigol claf-benodol, y mae meddyg wedi cytuno iddo.

Gall nyrsys, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, optometryddion, ciropodyddion neu bodiatryddion, radiograffwyr ac optometryddion hyfforddi a chofrestru fel rhagnodwyd atodol.

## **3. Rhagnodi gan Ymarferwyr Cymunedol o'r Llyfr Fformwlâu Nyrsys Rhagnodi ar gyfer Rhagnodwyr Cymunedol (Rhagnodi Cyfyngedig)**

Mae ymarferwyr cymunedol, a adwaenir gynt fel Nyrsys Ardal ac Ymwelwyr lechyd, yn gallu rhagnodi'n annibynnol o **lyfr fformwlâu cyfyngedig** sy'n cynnwys ystod gyfyngedig o foddion, dresin a chyfarpar sy'n addas i'w defnyddio mewn lleoliadau cymunedol.

## **4. Trosolwg o'r Cwrs PGCert (L7) 60 credyd Trallwysiad Cyfansoddion Gwaed (NABT)**

### **Trosolwg o'r cwrs**

Mae Tystysgrif i Raddedigion mewn Trallwysiad Cyfansoddion Gwaed yn galluogi Ymarferwyr Gofal lechyd anfeddygol (HCP) profiadol i wneud y penderfyniad clinigol ac i roi cyfarwyddyd ysgrifenedig i roi trallwysiad cyfansoddion gwaed i gleifion o fewn eu harbenigedd clinigol eu hunain, ac o fewn eu meysydd cymhwysedd ac arbenigedd eu hunain.

- Rhaglen Gymru Gyfan ac elfen graidd o baratoi staff anfeddygol ar gyfer y rôl i awdurdodi trallwysio cyfansoddion gwaed
- Mae'r cwrs yn ategu'r Polisi Cymru Gyfan ar gyfer awdurdodaeth anfeddygol trallwysio cyfansoddion gwaed.

### **Addysgu a Chyflogadwyedd:**

- Datblygwyd ar y cyd â Gwasanaeth Gwaed Cymru ar ran Llywodraeth Cymru
- Rhaid bod myfyrwyr yn gweithio mewn maes clinigol perthnasol pan fyddant yn cwblhau'r rhaglen hon.

## Disgrifiad

Mae'r cwrs arloesol hwn yn paratoi ymarferwyr anfeddygol priodol i fabwysiadu rôl estynedig i wneud y penderfyniad i drallwysu ac i roi cyfarwyddyd ysgrifenedig i drallwysu cyfansoddion gwaed a bydd o ganlyniad yn;

- Symleiddio llwybr y claf
- Mabwysiadu dull cyfannol
- Diogelu'r claf, y Gweithiwr Gofal Iechyd proffesiynol a'r cyflogwr

Mae'r cwrs wedi'i achredu gan Brifysgol Abertawe ac mae'n cael ei gyflwyno mewn cydweithrediad â Thîm Trallwysiad Gwaed Gwell Gwasanaeth Gwaed Cymru.

## Dyrannu a Monitro

Bob blwyddyn bydd dyraniad lleoedd ar gyfer addysg NMP a nodwyd yn IMTP y sefydliad yn dilyn y broses isod:

1. Bydd AaGIC yn cyfrifo nifer y lleoedd a ariannir a ddyrannir i bob sefydliad. Bydd AaGIC yn hysbysu sefydliadau'r GIG bob blwyddyn o nifer y lleoedd a ddyfarwyd iddynt yn eu prifysgolion partner.
2. Bydd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn cwblhau ffurflen fonitro NMP ynghyd â'r gofynion addysg a rhagamcan o gostau eu sefydliad, fel y nodwyd yn eu IMTP, am y blynyddoedd academaidd sy'n dod o fewn y flwyddyn ariannol 1 Ebrill-31 Mawrth. Bydd angen cynnwys unrhyw addysg sy'n dod o fewn y flwyddyn academaidd gyfredol sy'n cychwyn ar ôl 1 Ebrill ar ffurflen fonitro'r flwyddyn ganlynol. Rhaid i ffurflenni Monitro gael eu lanlwytho i'r ffolder NMP ar safle SharePoint AaGIC, erbyn y dyddiad y cytunwyd arno.
3. Os oes unrhyw unigolyn wedi tynnu'n ôl o'r rhaglen neu wedi gadael y sefydliad, dylid rhoi gwybod i AaGIC cyn gynted â phosibl, a chofnodi hynny ar y ffurflen fonitro.
4. Bydd AaGIC yn cwrdd â holl Sefydliadau'r GIG i drafod a chytuno ar yr holl geisiadau addysg a dyraniadau'r gyllideb am y flwyddyn honno.
5. Bydd AaGIC yn hysbysu'r Sefydliadau Addysg Uwch o'r lleoedd a ddyrannwyd i bob un o Sefydliadau'r GIG. Bydd ffurflenni monitro'n cael eu lanlwytho i'r ffolderi prifysgolion ar safle SharePoint AaGIC.
6. Bydd y Sefydliadau Addysg Uwch yn cydweithio â sefydliadau'r GIG i sicrhau bod unigolion yn cael eu recriwtio ar y cyrsiau perthnasol.
7. Dylai Sefydliadau Addysg Uwch sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu dethol ar gyfer y cwrs yn seiliedig ar y meini prawf dethol y cytunwyd arnynt

rhwng y Sefydliad Addysg Uwch a Sefydliad y GIG, a chynnwys cynrychiolaeth briodol o Sefydliadau'r GIG ar y panel dethol.

8. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch rhoi manylion cofrestru a gadarnhawyd i AaGIC ar y ffurflenni Monitro NMP ar y safle SharePoint erbyn yr amserlen y cytunwyd arno. Rhaid cael anfonebau erbyn 1 Chwefror bob blwyddyn gyda manylion am y cwrs priodol fel cadarnhad ategol.

## Diogelu Data

Bydd yr holl staff sy'n sicrhau lle yn cael llythyr ariannu gan AaGIC, a llythyr nawdd cofrestru. Bydd yr holl staff sy'n cael lle wedi'i ariannu'n cytuno y gall AaGIC rannu eu gwybodaeth bersonol â'r darparwr addysg y maent yn astudio â hwy. Rhaid i Fyrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau gynnwys hysbysiadau preifatrwydd yn eu proses ymgeisio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â GDPR.

## Cofrestru

Drwy gydol eu cwrs, **RHAID** i fyfyrwyr unigol gadw eu cofrestriad proffesiynol. Dylai trefniadau lleol fod ar waith i sicrhau hyn. Mae Myfyrwyr a'u cyflogwr yn gyfrifol gyda'i gilydd am sicrhau bod eu cofrestriad proffesiynol yn parhau'n gyfredol drwy gydol eu cyfnod ar y cwrs.

## Costau Teithio

Noder mai **dim ond ffioedd y cwrs sy'n cael eu hariannu** gan AaGIC. Ni ad-delir unrhyw gostau teithio cysylltiedig.

## Toriad wrth astudio

Rhaid i sefydliadau'r GIG hysbysu AaGIC os yw unrhyw aelodau o staff sy'n cael lle wedi'i ariannu'n absennol o'r gweithle a fydd yn golygu eu bod naill ai'n tynnu allan neu'n ddim yn bwrw ymlaen â rhaglen.

## Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu angen eglurhad pellach, anfonwch e-bost i [HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk](mailto:HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk) neu [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk)

